EUSCS05

Goruchwylio timau sy'n gwneud gwaith mewn mannau cyfyng

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dyletswyddau goruchwyliwr mannau cyfyng. Yn ôl pob tebyg, bydd goruchwyliwr yn gyfrifol am sawl tîm sy'n gweithio mewn mannau cyfyng ar unrhyw un adeg. Mae man cyfyng yn unrhyw le, gan gynnwys unrhyw siambr, tanc, cerwyn, seilo, pwll, ffos, pibell, carthffos, ffliw, ffynnon neu fan tebyg lle ceir risg benodol y gellir ei rhagweld yn rhesymol oherwydd ei natur gaeedig. Gallai'r risgiau arwain at anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i dân, ffrwydrad, nwy, mygdarthau, anwedd, diffyg ocsigen, lefelau cynyddol o hylif, mygu neu gaethiwo gan solidau sy'n llifo'n rhydd.

Mae'n cynnwys trefnu timau gwaith, cynllunio gweithdrefnau cyn mynd i mewn, gwneud yn siŵr bod yr holl gyfarpar diogelwch ac argyfwng ar gael a gwneud yn siŵr bod aelodau'r tîm sy'n gweithio mewn mannau cyfyng yn dilyn gweithdrefnau diogelwch wrth weithio mewn ffyrdd arferol. Mae hefyd yn cynnwys ymateb a chymryd cyfrifoldeb dros oruchwyliaeth o fannau cyfyng yn uniongyrchol.

Mae'r safon hon ar gyfer goruchwylwyr mannau cyfyng. Nid yw mynediad i fannau cyfyng yn ofynnol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwneud yn siŵr bod yr holl ddogfennau iechyd a diogelwch perthnasol yn eu lle cyn i bobl fynd i mewn i fannau cyfyng
2. trefnu bod y cyfarpar angenrheidiol ar gael i allu cynnal gweithgareddau gwaith
3. trefnu timau gwaith cymwys i gyflawni gweithgareddau gwaith
4. dyrannu gweithgareddau i unigolion er mwyn llenwi pob rôl angenrheidiol yn y tîm
5. cadarnhau bod pob aelod o'r tîm yn gwybod eu rôl ac yn eu deall cyn dechrau gweithio
6. hysbysu timau gwaith ynghylch natur a dosbarth y mannau cyfyng a'r systemau gwaith diogel cyn iddynt ddechrau gweithio
7. cynnal asesiadau risg amser real cyn i dimau ddechrau gweithio
8. cynllunio dulliau rheoli ar gyfer rhoi mynediad i bobl a cherbydau o amgylch pwyntiau mynediad
9. cadarnhau bod systemau cyfathrebu wedi'u gosod a'u profi cyn i dimau ddechrau gweithio
10. cadarnhau bod trefniadau argyfwng, gweithdrefnau a systemau cyfathrebu ar waith ac yn gweithio'n iawn
11. rhoi gwybod i dimau gwaith a gweithwyr cymorth perthnasol ac oddi ar y safle am y trefniadau argyfwng
12. trefnu bod yr holl gyfarpar achub ar y safle fel y nodir mewn gweithdrefnau argyfwng
13. gwneud yn siŵr bod amodau atmosfferig ac eraill yn ddiogel cyn i dimau gwaith fynd i mewn i fannau cyfyng
14. gwneud yn siŵr bod timau gwaith yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer mynd i mewn ac allan o fannau cyfyng a gweithio ynddynt
15. gwneud yn siŵr bod gweithdrefnau ar gyfer cario cyfarpar diogelwch a'u defnyddio yn cael eu dilyn
16. gwneud yn siŵr bod timau gwaith yn defnyddio cyfarpar canfod a mynediad yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
17. gwneud yn siŵr bod cyfathrebu rheolaidd â thimau gwaith ynghylch gweithgareddau gwaith ac amodau amgylcheddol
18. mynd ati ar unwaith i gywiro unrhyw sefyllfaoedd lle nad yw aelodau'r tîm yn dilyn gweithdrefnau
19. cymryd camau ar unwaith i gywiro unrhyw weithgaredd, cyfarpar ac amodau amgylcheddol anniogel

20. gwneud yn siŵr bod timau gwaith yn cael eu monitro er mwyn cydymffurfio â gweithdrefnau'n barhaus
21. cadarnhau bod parthau gwahardd yn eu lle i atal mynediad i bobl heb awdurdod yn dilyn sefyllfaoedd argyfwng
22. cadarnhau bod cyfarpar achub yn eu lle cyn caniatáu mynediad i fannau cyfyng
23. dechrau gweithdrefnau argyfwng ar unwaith pan mae angen neu sefyllfa yn codi
24. cadw rheolaeth ar aelodau'r tîm gwaith yn ystod digwyddiadau ac argyfyngau
25. gwneud yn siŵr bod cyfarpar argyfwng yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau gwneuthurwyr a gweithdrefnau argyfwng
26. dilyn gweithdrefnau argyfwng a'u cynnal drwy gydol digwyddiadau ac argyfyngau
27. cofnodi digwyddiadau, argyfyngau a'u hamgylchiadau ac adrodd amdanynt yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
28. trefnu bod cymorth cyntaf sylfaenol ar gael gan unigolion cymwys ar gyfer y rhai sydd wedi'u hanafu a'u hadfer i'r wyneb
29. parhau i gyfathrebu yn ystod digwyddiadau ac argyfyngau yn unol â gweithdrefnau argyfwng
30. rhoi digon o wybodaeth berthnasol i'r gwasanaethau brys am ddigwyddiadau ac argyfyngau wrth eu trosglwyddo iddynt
31. gwneud yn siŵr bod safleoedd yn ddiogel ac yn cael eu cynnal ar gyfer ymchwiliadau ôl-achub
32. goruchwylio'r gwaith o adfer cyfarpar ac offer pan fydd y gwaith wedi'i orffen
33. cau mannau gwaith a'u gwneud yn ddiogel pan mae gwaith wedi'i gwblhau
34. gwneud adroddiadau a chwblhau'r holl ddogfennau a'u rhoi i bobl ddynodedig.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. prif egwyddorion a nodweddion mannau cyfyng cyfredol, iechyd a diogelwch a deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol
2. y codau ymarfer a'r canllawiau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng
3. defnyddio awdurdodiadau a thrwyddedau gwaith
4. dyletswyddau a chyfrifoldebau personol o dan ddeddfwriaeth
5. cyfrifoldebau tîm achub a'i aelodau unigol
6. cyfrifoldebau rheoli timau gwaith
7. diffiniadau o sefyllfaoedd peryglus a gwahanol fathau o beryglon a chategorïau ohonynt
8. mathau o fannau a allai fynd yn gyfyng gan fod risg a nodwyd yno
9. peryglon, sylweddau a sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â mannau cyfyng
10. asesiad deinamig o sut i leihau'r risg o anaf i chi'ch hun, cydweithwyr a'r cyhoedd
11. sut i asesu ac adolygu risgiau a pheryglon, hierarchaeth y mesurau rheoli a sut gellir eu defnyddio i leihau risgiau hyd at lefel dderbyniol er mwyn i waith gael ei wneud
12. ymwybyddiaeth o sut gall sefyllfaoedd argyfwng godi mewn mannau cyfyng
13. dulliau a thechnegau defnyddio a gwisgo cyfarpar diogelu personol
14. technegau canfod diffygion a chydnabod cyfyngiadau offer
15. cyfarwyddiadau gwneuthurwyr ynghylch defnyddio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng
16. mathau o gyfarpar achub a'u cyfyngiadau
17. deddfwriaeth a chodau ymarfer a chanllawiau cymeradwy ar gyfer defnyddio cyfarpar diogelwch gan gynnwys cyfarpar anadlu hunangynhwysol a phibelli aer
18. sut i gadw aelodau eraill y tîm yn ddiogel
19. sut i gael gafael ar unigolion sydd â chymhwyster cymorth cyntaf
20. mathau o sefyllfaoedd argyfwng a chategorïau ohonynt a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag afreoleidd-dra, sefyllfaoedd annormal, argyfyngau, digwyddiadau a damweiniau fu ond y dim iddynt ddigwydd, gan gynnwys achub ac adfer, a phryd y dylech roi gwybod i bobl eraill
21. cynlluniau dosbarthu mannau cyfyng22. sut i nodi mannau cyfyng risg ganolig a risg uchel

23. sut i baratoi, profi a defnyddio cyfarpar mynediad, dianc ac achub cynorthwyol
24. pam mae'n bwysig bod yn effro i risgiau a pheryglon posibl ac amodau sy'n newid bob amser
25. y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio sy'n addas i ddosbarth y man cyfyng ac amodau lleol
26. y gwahanol fathau o gyfarpar monitro a'u cyfyngiadau
27. ffyrdd o fonitro amodau a gweithgaredd gwaith
28. pam mae'n bwysig datrys problemau ar unwaith a chael pobl ddynodedig i'w datrys
29. dulliau cyfathrebu ar gyfer cadw mewn cysylltiad ag aelodau'r tîm mewn mannau cyfyng, timau argyfwng a rheolwyr
30. gweithdrefnau ar gyfer paratoi offer a chyfarpar, eu harchwilio a'u defnyddio
31. diben byrddau argyfwng, cofnodion a byrddau BACO a sut i'w defnyddio
32. systemau adrodd ar gyfer gweithgareddau gwaith arferol ac anarferol, datrys problemau a sefyllfaoedd argyfwng

Goruchwylio timau sy'n gwneud gwaith mewn mannau cyfyng

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSCS05
Galwedigaethau perthnasol	Peirianegol a thechnolegau gweithgynhyrchu; Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig
Cyfres/Set	Mannau Cyfyng
Geiriau Allweddol	Man cyfyng; risg uchel; risg ganolig; risg isel; risg benodol; goruchwylio; nifer o dimau; cyfarpar diogelwch; cyfarpar argyfwng; gweithdrefnau diogelwch; argyfyngau